# Diweddariad Llechi Cymru

## Mehefin 2026

SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE

CYNGOR GWYNEDD · AMGUEDDFA CYMRU · CBHC RCAHMW · Ymddiriedolaeth Genedlaethol National Trust · PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY · PARC CENEDLAETHOL ERYRI NATIONAL PARK · Cadw · Heneb

# Cynnwys


Rhagair

1. Dyffryn Ogwen ........................................................................ 1.

2. Bro Peris ..................................................................................... 3.

3. Dyffryn Nantlle ......................................................................... 4.

4. Bro Ffestiniog ............................................................................ 5.

5. Ardal Porthmadog .................................................................. 6.

6. Abergynolwyn ........................................................................... 7.

7. Tywyn .......................................................................................... 8.

8. Amgueddfa Lechi....................................................................... 9.

9. Digwyddiadau a Gweithgareddau Diweddar ................... 11.

10. Digwyddiadau i Ddod a Gwybodaeth Bellach ............. 12.





# Rhagair

Croeso i'n diweddariad chwarterol ar ei newydd wedd. Mae ein fformat newydd yn canolbwyntio ar ardaloedd penodol yn Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, gan ei gwneud yn haws i chi gael gwybod beth rydym yn ei wneud ar eich stepen drws.

Weithiau byddwn yn ymhelaethu ar eitem benodol - gan fod cymaint o bobl yn holi am ailddatblygu'r Amgueddfa Lechi, penderfynwyd rhoi ychydig mwy o le i'r prosiect y tro hwn.

Rydym yn llawn edmygedd o'r bobl ifanc sydd wedi bod yn dysgu am dreftadaeth llechi tra'n cyflawni bob math o weithgareddau anturus yn y dirwedd llechi, o ddringo Craig yr Undeb i gerdded ceunentydd fel rhan o'n cynllun Llysgenhadon Llechi Ifanc ar y cyd efo Gwasanaeth Awyr Agored Yr Urdd. Yn agored i bobl ifanc 13-16 oed sy'n byw yng Ngwynedd, i ymuno efo'r cynllun ar gyfer rhaglen gweithgareddau'r hydref, gellir mynegi diddordeb a chofrestru yma: **Llysgenhadon Llechi Ifanc**.

Cafwyd cyfle yn ddiweddar i gydweithio gyda Thîm Achub Mynydd De Eryri fel rhan o'n hymgyrch negeseuon diogelwch. Diolch i Iwan o'r tîm am gyfrannu at y **fideo yma**.



# 1. Dyffryn Ogwen

Fel rhan o raglen Llewyrch o'r Llechi, mae Cyngor Gwynedd wedi dathlu agoriad swyddogol **Pont Sarnau** yn ardal Bethesda, gan nodi carreg filltir bwysig yn y gwaith o wella llwybrau teithio llesol yn Nyffryn Ogwen. Mae'r strwythur newydd 26-metr yn uwchraddio'r hen bont droed a oedd wedi cyrraedd diwedd ei hoes. Roedd yr hen Bont Sarnau wedi cynnig cyswllt allweddol i gerddwyr yn yr ardal am ymhell dros ganrif. Ynghyd â Chyngor Gwynedd, roedd cynrychiolwyr o Gyngor Tref Bethesda, Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor, y prif gontractwr OBR Construction ac eraill yn bresennol ar gyfer yr agoriad.

Rydym wedi gweithio efo **Clwb Hanes Dyffryn Ogwen** i greu cynnwys ar gyfer bwrdd gwybodaeth Pont Sarnau, fydd yn esbonio ychydig o hanes yr hen bont. Mae hwn yn cael ei ddylunio a'i greu gan gwmni lleol.



Pont Sarnau, Bethesda



Hen Ysbyty Chwarel y Penrhyn (Llun: Donlad Insall Associates)

Yn dilyn misoedd o waith arbenigol gan Recclesia mae'r gwaith cadwraeth sylweddol ar **Hen Ysbyty Chwarel y Penrhyn** yn dirwyn i ben. Mae'r strwythur bellach wedi ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau i ddod. Bwriedir datblygu dehongli ar gyfer y safle er mwyn rhannu arwyddocâd y strwythur, a stori ei phobl gydag unrhyw un sy'n ymweld â'r safle.

Mae gwaith adnewyddu **Yr Hen Bost** yn parhau gyda'r to yn cael ei orffen ar yr estyniad newydd yn yr wythnosau nesaf. Mae'n gyffroes gweld datblygiad yr adeilad.

Braf oedd cael cefnogi dathliadau **Eglwys Glanogwen** yn 170 oed a thynnu sylw at rôl yr eglwys mewn treftadaeth llechi drwy gynnal sgwrs efo Dr Dafydd Roberts am Eglwysi Anglicanaidd Dyffryn Ogwen yn Eglwys Glanogwen ar 11 Mehefin.

Bu'r Swyddog Dysgu a Datblygu Sgiliau yn cynnal **gweithdai creadigol** yn ysgolion Glancegin a Hirael, yn ymwneud a hanes chwareli Dyffryn Ogwen, y rheilffyrdd a Porth Penrhyn. Diolch i'n partneriaid MSparc, Cwmni Fran Wen, yr Amgueddfa Lechi, Gwasanaeth Archifau Gwynedd a'r artist Jŵls Williams am gyfrannu i'r sesiynau.

Diolch i bawb ymunodd efo ni am **dro meddylgarwch** ar hyd Lôn Las Ogwen ar 30 Mai ar y cyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri o dan arweiniad Leisa Mererid.



Dro Meddylgarwch ar hyd Lôn Las Ogwen

Mae **biniau newydd** wedi eu gosod o gwmpas tref Bethesda. Rydym yn gweithio'n agos gyda Grŵp Gweithredu Gwelliannau Bethesda i ddewis geiriau 'Pesda' i'w **cerfio ar lechi** a fydd yn cael eu gosod ar y palmant yng nghanol y dref.

Llongyfarchiadau i **Gaban Gerlan** wrth iddynt drefnu hyfforddiant llwyddiannus iawn ar osod crawiau / pileri gyda nawdd o gynllun grantiau cymunedol LleCHI LleNI. Diolch hefyd iddynt am ymestyn croeso cynnes i dîm Llechi Cymru a swyddogion y Loteri i glywed mwy am weithgareddau'r ganolfan, ac am ddigwyddiadau a gweithgareddau cynllun LleCHI LleNI.



# 2. Bro Peris

Mae gwaith cadwraeth wedi cychwyn ar **Hafod Owen**, gan gychwyn gyda gwaith adfer i do'r adeilad.  Bwriedir cychwyn ar adfer Sied y Fire Queen yn y misoedd nesaf.

Mae'r Bloc Croeso yn weithredol ac yn profi yn ased i **Barc Padarn** yn ystod cyfnodau prysur yr haf.

Yn ein cyfres o dair taith cerdded rhwng Ebrill a Mehefin, **O'r Llechi i'r Lli**, yn olrhain siwrnai'r llechen o chwarel Dinorwig i'r Felinheli, cafodd mynychwyr gyfle i ddysgu am hanes a natur yr ardal, ar y cyd efo GwyrddNi a dan arweiniad Martin Davies o gwmni Ardal.

Ar 18 Ebrill daeth LleCHI LleNI, Menter Fachwen a Martin Davies ynghyd i arwain **taith gerdded i gofio'r diweddar Gareth Roberts**, hanesydd lleol a gyfrannodd gymaint at ymwybyddiaeth o hanes yr ardal.

Diolch yn fawr i **GISDA** am gyflawni prosiect gwerthfawr dros ben yn cynnal sesiynau treftadaeth a gweithdai creadigol i bobl ifanc yn ardal Deiniolen.

Fel rhan o ddatblygiad darn o waith **celf gymunedol** unigryw i Lanberis, cafwyd ymweliad gan yr artist Howard Bowcott a gweithdy creadigol yn Ysgol Dolbadarn ym mis Mawrth yn ogystal â digwyddiad galw i mewn yn Y Ganolfan ar y cyd a'r Amgueddfa Lechi. Casglwyd syniadau ar gyfer testun i'w naddu i arwyneb y cerflun newydd. Mae'r ffens ar safle'r gelf wedi'i godi ac mae'r gwaith celf yn cael ei adeiladu yng ngweithdy'r artist. Edrychwn ymlaen i'w weld yn cael ei osod yn fuan.

Mae **biniau newydd** wedi cael eu gosod o amgylch Llanberis. Mae **gwaith ail-wynebu** troedffyrdd yng nghanol y pentref yn parhau.

Rydym yn cydweithio a'r gymuned i ddatblygu cynnwys newydd ar gyfer y **paneli treftadaeth** yn Llanberis a bellach wedi penodi cwmni i wneud y gwaith dylunio a chreu.



O'r Llechi i'r Lli



Biniau newydd, Llanberis

# 3. Dyffryn Nantlle

Mae'r **panel dehongli** ar gyfer cerfluniau Blondins Penygroes yn cael ei ddylunio a'i greu gan gwmni lleol. Ar yr un pryd, mae cynnwys sy'n egluro'r ysbrydoliaeth y tu ôl i'r cerfluniau yn cael ei ddatblygu ar gyfer tudalen gwybodaeth Celf Llechi ar wefan Llechi Cymru.

Roedd Arddangosfa Treftadaeth REACH ar 20 a 21 Ebrill yn Yr Orsaf, Penygroes yn cynnig cyfle eto i weld gwaith **Prosiect Prentisiaid** Carwyn Rhys Jones (sesiynau dysgu sgiliau cyfweld a ffotograffiaeth) cyn i waith y plant fynd i arddangosfa genedlaethol yn Sain Ffagan yn yr hydref.

Cafwyd cyfle i blant yr ardal wneud cysylltiad efo disgyblion Safle Treftadaeth y Byd arall drwy brosiect **Camau y Cewri**, sy'n pontio Sarn y Cewri a Thirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Cydweithiodd dwy ysgol gynradd, Portrush yng Ngogledd yr Iwerddon, a Llanllyfni yn Nyffryn Nantlle dros gyfnod o chwe wythnos.



Gweithdy ysgol, prosiect gefeillio



Prosiect Prentisiaid

Mewn partneriaeth a **Phrosiect Dorothea**, sicrhawyd caniatâd cynllunio ar gyfer creu **maes parcio newydd** ger Sgwâr Petris, Talysarn, er mwyn creu mynedfa amgen i Chwarel Dorothea gyda'r bwriad o geisio lleihau effaith parcio ymwelwyr i'r safle ar drigolion lleol.  Mae gwaith bellach yn mynd rhagddi i geisio sicrhau cyllid er mwyn gwireddu'r prosiect.

Braf oedd gweld **Menter Ty'n Llan** yn dathlu'r cysylltiadau chwarelyddol yr ardal ehangach mewn gwaith dehongli gan gynnwys englyn llechi gan Mei Mac. Gyda nawdd o gronfa grantiau cymunedol LleCHI LleNI.



© Hawlfraint y Goron CBHC

# 4. Bro Ffestiniog

Mae **Yr Aelwyd** yn mynd o nerth i nerth wrth iddo ddod yn hwb i'r gymuned gyfan, yn gartref i glwb ieuenctid CRAIG sydd yn croesawu dros 100 o bobl ifanc yno yn wythnosol, i ddosbarthiadau yoga, partis plant, sesiynau Ysgol y Moelwyn ac amryw o weithgareddau cymunedol.

Mae'r gwaith i adnewyddu **Caffi Bolton a Siop Ephraim** yn symud ymlaen yn dda, gyda'r contractwyr yn gweithio yn galed i gyflawni'r prosiect cyffrous yma.

Cafwyd ymweliad i Flaenau Ffestiniog gan swyddog Llywodraeth y DU i ymweld â chynlluniau **Llewyrch o'r Llechi** y dref, a chyfle i gyfarfod swyddogion Cwmni Bro wrth ymweld â'r Aelwyd ac adeiladau Church St.

Rydym yn falch iawn o fod wedi cydweithio gyda Chwmni Bro, Cymdeithas Hanes Bro Ffestiniog a JW Greaves i sicrhau cyllid ar gyfer cyflogi **Swyddog Datblygu Treftadaeth** ar gyfer Bro Ffestiniog am gyfnod o flwyddyn, mae Cadi yn ei swydd ac yn weithgar iawn yn y gymuned.

Mae gwaith cadwraeth i **Felin Maenofferen** yn mynd rhagddi, gyda'r wedd diogelu nesaf ar waith i sicrhau sefydlogrwydd y strwythur am y 10-15 mlynedd nesaf er mwyn rhoi cyfle i adnabod defnydd amgen iddo yn y dyfodol. Cynhaliwyd sesiwn galw heibio i drafod dyfodol y Felin yn Yr Aelwyd ym Mis Mehefin, dan arweiniad Cwmni Bro a Slate Heritage International. Roedd hi'n wych gweld gymaint o bobl yn troi allan i glywed am y gwaith cadwraeth sydd yn mynd rhagddi ac i rannu eu syniadau am ddyfodol yr adeilad eiconig yma. Yn hwyrach yn y mis, trefnwyd teithiau tywys o amgylch y safle.



Sesiwn galw heibio



Melin Maenofferen. Llun: Elfed Wyn ap Elwyn

Mae **biniau newydd** wedi cael eu gosod o amgylch y dref a gwaith ail-wynebu troedffyrdd y Sgwâr yn parhau.

Llongyfarchiadau i Marged o'r Dref Werdd a'r Criw Cwiltio a fu'n yn gweithio'n galed iawn i greu **Carthen Gymunedol** yn dathlu treftadaeth chwarelyddol yr ardal. Gyda chymorth gan Grant Cymunedol LleCHI LleNI. Mae'r garthen yn cael ei harddangos yng Nghaffi Antur.

Cefnogwyd Cyngor Tref Ffestiniog a Chwmni Bro i baratoi eu datganiad o ddiddordeb i gystadleuaeth **Tref Diwylliant 2028**.

# 5. Ardal Porthmadog

Yn dilyn gosod gwaith celf trawiadol Howard Bowcott mewn pedwar lleoliad ym Mhorthmadog llynedd, mae **gwaith dehongli celf Porthmadog** bellach ar **wefan Llechi Cymru**. Gellir cael mynediad at y wybodaeth trwy godau QR wedi eu gosod ar y pileri celf unigol neu trwy wefan Llechi Cymru.

Cynhaliwyd **gweithdy ffotograffiaeth Maentwrog** 'A fo Ben Bid Bont' ar 3 Mai yng nghwmni Dylan Arnold.



Hollti a thrin llechi



Gwaith celf Howard Bowcott

Ar 4 Gorffennaf cafwyd cyfle i ddysgu am hanes **chwareli Gorseddau a Bwlch y ddwy Elor** oedd yn cludo llechi o harbwr Porthmadog. Bu Dr Dafydd Gwyn yn rhoi sgwrs yn Ystafell De Tyddyn Mawr ac arddangoswyd y grefft o hollti a thrin llechi gan chwarelwyr yr Amgueddfa Lechi. Roedd Meic Watts yno yn arddangos ei waith llechi cerfiedig hynod ac roedd cyfle i glywed mwy am lyfrau newydd am yr ardal ac i siarad gyda thîm Llwybr Llechi Eryri. Roedd hwn yn sesiwn ar y cyd rhwng LleCHI LleNI ac 'Amgueddfa ar y Lôn' yr Amgueddfa Lechi.

Ers cychwyn prosiect LleCHI LleNI mae **36 gweithdy i ysgolion** wedi eu cynnal yn ardal Porthmadog a Phenrhyndeudraeth gan roi cyfle i bobl ifanc yr ardal gymryd rhan mewn gweithgareddau **fel hyn**. Yn ogystal mae Mr Phormula wedi cynnal sesiynau rapio a bît-bocsio yn uned iaith Ysgol Eifionydd ac mae plant yr uned wedi bod ar daith gerdded i weld y celf gyhoeddus llechi.

Cafodd teuluoedd yr ardal gyfle i gymryd rhan mewn **gweithdy STEM** yn seiliedig ar ffurfio llechi a chreigiau eraill mewn sesiwn efo Sbarduno yn Llyfrgell Porthmadog.

Gan weithio gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, mae tîm arolygu Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru wedi bod yn cofnodi elfennau o Safle Treftadaeth y Byd, gan ddefnyddio sganio laser a ffotogrametreg UAV i gofnodi'r **felin lechi o 1864 yng Nghwm Pennant**, gan gefnogi gwaith cadwraeth yn y dyfodol drwy arolygon tri dimensiwn (3D).

# 6. Abergynolwyn

Mae swyddogion y Tîm Llechi'n cydweithio'n agos ag Is-bwyllgor o Gyngor Cymuned **Llanfihangel y Pennant** ar y camau i osod replica wagan lechi y tu allan i'r Ganolfan. Mae cais cynllunio i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar y gweill.

Roeddem yn falch o allu cefnogi **Seindorf Arian Abergynolwyn** gyda grant cymunedol LleCHI LleNI i dalu am weithgareddau ac am gyflwyno cais cynllunio ar gyfer ganolfan ddiwylliannol.

Bu'r hanesydd Dr Dafydd Gwyn yn arwain **Troed & Trên** ar 27 Mawrth, sef taith gerdded hanesyddol efo trip bach ar y trên, ar y cyd efo'r Rheilffordd Talyllyn.

Cafodd trigolion yr ardal gyfle i ddatblygu eu sgiliau ffotograffiaeth a chelf mewn **gweithdy ffotograffiaeth** efo'r ffotograffydd o fri, Carwyn Rhys Jones, ar 23 Mai.




Gweithdy Carwyn Rhys Jones



Troed & Trên



# 7. Tywyn

Llongyfarchiadau i **Reilffordd Talyllyn**, sy'n dathlu 75 mlynedd ers sefydlu'r rheilffordd gadwraethol gyntaf yn y byd eleni. Rheilffordd Talyllyn oedd y cyntaf yn y byd i gael ei rhedeg gan wirfoddolwyr yn 1951.

Ym mis Awst cynhaliwyd cyfarfod cyntaf **Hwb Tywyn** yn y Llyfrgell efo swyddogion Ardal Ni a Gwynedd yn ei Gymuned.

Mae **panel dehongli** Wagan Tywyn wedi cael ei osod, roedd rheolwr prosiect adfywio trefi yn gweithio yn agos gyda Chyngor Tref Tywyn i'w ddylunio a'i osod.

Mae tudalen yn dehongli **gwaith celf Wagan Tywyn** bellach ar **wefan Llechi Cymru**, lle gellir dysgu mwy am y wagan, y geiriau sydd wedi eu naddu arni, a hefyd am eiriau gwreiddiol Manon Steffan Ros sydd wedi'u naddu ar lechi'r palmant gerllaw.



Panel Dehongli, Tywyn




Ysgol Penybryn

Cynhaliwyd gweithdai creadigol yn **Ysgol Penybryn**, Tywyn rhwng 13 a 15 Mai. Cafodd disgyblion y cyfle i fapio chwareli Bro Dysynni yng nghwmni yr artist Jŵls Williams, a chyfansoddi cerddoriaeth gyda Geth Tomos, Cerddamdani.

Bu'r Swyddog Dysgu a Datblygu Sgiliau LleCHI LleNI ar ymweliadau a **gweithdai ysgolion**, i baratoi pecyn addysg rheilffordd Talyllyn, gyda chyfraniad o ysgolion Dyffryn Dulas a Dysynni.

Rydym wedi gosod '**Caban Clud**' efo gweithgareddau amrywiol i ddifyrru plant ifanc yn llyfrgell Tywyn. (Mae Caban Clud yn llyfrgell Caernarfon hefyd, i'r rhai ohonoch yng ngogledd y sir).



# 8. Amgueddfa Lechi

Mae **Llewyrch o'r Llechi** wedi cyfrannu at brosiect ailddatblygu'r Amgueddfa. Mae Llewych o'r Llechi yn rhaglen buddsoddi ddiwylliannol a ariennir gan Lywodraeth y DU a'i harweinir gan Gyngor Gwynedd.  Mae'n rhan o gyfres o welliannau yn deillio o ddynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.

Wrth i'r gwaith ar **ailddatblygu'r Amgueddfa Lechi** barhau ar gyflymder, mae tîm yr amgueddfa wedi bod yn brysur yn ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy amrywiaeth o weithgareddau. Ym mis Mai, cynhaliwyd **Eisteddfod yr Urdd** ar Ynys Môn, lle ymwelodd dros 2,000 o bobl â stondin yr Amgueddfa yn ystod yr ŵyl. Roedd hyn yn gyfle gwerthfawr i gysylltu â chynulleidfa eang ac amrywiol (a chael ychydig o hwyl hefyd!).

Roedd y digwyddiad hefyd yn gyfle gwych i ddiolch i gyllidwyr y prosiect, gan fod llawer o ymwelwyr yn awyddus i ddysgu sut mae'r ailddatblygiad yn cael ei wireddu. Tynnwyd ffotograffau Polaroid o chwaraewyr y Loteri a chefnogwyr eraill, gan helpu i roi wynebau i'r bobl sy'n cyfrannu at ddyfodol yr Amgueddfa. Croesawodd y stondin hefyd ymweliadau gan y Prif Weinidog newydd ei ethol, Rhun ap Iorwerth AS, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chwaraeon, Heledd Fychan AS.





Lluniau: Amgueddfa Lechi

Fel rhan o **Wythnos Gwirfoddolwyr**, trefnodd y tîm ddigwyddiad arbennig i ddiolch i'w gwirfoddolwyr. Cafodd y gwirfoddolwyr eu gwahodd i gymryd rhan mewn gweithdy dan arweiniad gof yr Amgueddfa, Liam, yn ei efail dros dro yng Nghei Llechi. Yn dilyn hynny, cafodd y gwirfoddolwyr de prynhawn ym Mecws Melys.

Mae **gwaith ymgysylltu** wedi cynnwys sesiynau 'Toddi a Tharo' a 'Her yr Olwyn Ddŵr' gyda disgyblion ysgolion cynradd lleol. Ar gyfer TGAU, mae ymgysylltiad yn cynnwys sesiynau ar Streic Fawr Chwarel y Penrhyn a'r Ysbyty Chwarel. Trefnwyd sesiynau i rieni a babanod yn Llanberis, gyda rhagor o sesiynau i ddechrau yn yr hydref.

**Diweddariadau ar yr ailddatblygiad**: ar safle, mae **prosiectau cadwraeth** yn symud ymlaen. Ar hyn o bryd, mae tua 400 metr o drac rheilffordd yn cael ei godi, ei gofnodi, ei labelu a'i asesu.

Mae gwaith hefyd wedi dechrau ar **ffenestri haearn bwrw**'r safle. Er eu bod yn weledol drawiadol, mae eu dyluniad wedi'i seilio ar ymarferoldeb – gellid ailosod pob un o'r 113 o baneli gwydr bach yn gyflym ac am gost gymharol isel pe byddent yn cael eu difrodi. Yn ogystal â'r gwaith ar y toeau, y simneiau a'r morter, mae dau slab concrit wedi'u gosod ar gyfer yr uned les newydd a'r siop newydd.





Lluniau: Amgueddfa Lechi

Am ragor gwybodaeth am **ddigwyddiadau** sydd ar y gweill yn yr Amgueddfa, **cliciwch yma**.

Tra bod gwaith cadwraeth ac ailddatblygu yn digwydd yn yr Amgueddfa, ewch i ymweld ag **Amgueddfa ar y Lôn** yn y lleoliadau canlynol: **cliciwch yma**.



# 9. Digwyddiadau a Gweithgareddau Diweddar

Buom yn trefnu neu'n cyfrannu at y canlynol:

- Eisteddfod yr Urdd, Ynys Môn (yn rhan o stondin yr Amgueddfa Lechi)
- Sioe Teithio a Thwristiaeth 2026, NEC Birmingham (efo Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri a Rheilffordd Talyllyn)
- Cyflwyniad ar STyB i staff a gwirfoddolwyr Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri, Boston Lodge
- Cynhadledd Coedwigoedd Glaw Celtaidd, Prifysgol Bangor
- Cyflwyniad LleCHI LleNI i fyfyrwyr cwrs MA Treftadaeth Fyd-eang Prifysgol Bangor
- Cyfarfod grŵp addysg a sgiliau STyB
- Sesiwn Rhwydwaith UNESCO yn y DU: Grymuso Pobl Ifanc
- Cyflwyniad LleCHI LleNI i Glwb Swper Llanfairpwll
- Cyfarfodydd i rannu gwybodaeth ac ymarfer da gyda chyfeillion 'Valentia Transatlantic Cable' sydd yn gweithio ar gais statws STyB i UNESCO
- Cyflwyniadau 'Caban Dehongli' ar brosiectau celf gyhoeddus a dehongli Llechi Cymru, yn ogystal â chyfraniadau gan Lwybr Llechi Eryri a'r Amgueddfa Lechi
- Lansiad Llwybr Treftadaeth y Byd Diwydiannol y DU
- Hyfforddiant Cyflwyniad i Crawiau / Pileri, Tyddyn Isaf, Tal y Bont, Bangor (gyda Kehoe Countryside Services ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Llechi Cymru)
- Cwrs i Fentrau a Busnesau am y STyB, Neuadd Ogwen, Bethesda
- Sesiwn galw heibio yn yr Aelwyd, Blaenau Ffestiniog: dyfodol Melin Maenofferen
- Ymweliadau Safle Melin Maenofferen (efo Cwmni Bro Ffestiniog a Slate Heritage International)
- Cwrs Gweithio Gyda Calch, Plas Tirion, Y Ganolfan Adeiladu Naturiol, Llanrwst (ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Llechi Cymru)
- Sesiwn Rhwydwaith UNESCO yn y DU: Modelau Partneriaeth a Gweithio Cydweithredol
- Cyfarfod Partneriaid Llewyrch o'r Llechi gydag ymweliad safle Parc Padarn ac Yr Amgueddfa Lechi
- Darlith efo Dr Dafydd Gwyn a Meic Watts a'r Amgueddfa Llechi yn rhannu eu sgiliau hollti a cherfio. Cwmystradllyn
- Cwrs Gweithio Gyda Calch. Plas Tirion, Y Ganolfan Adeiladu Naturiol, Llanrwst ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Llechi Cymru)



# 10. Digwyddiadau i Ddod a Gwybodaeth Bellach

| | |
|---|---|
| **16/07/2026** | Cyflwyniad i Craiwiau / Pileri (Ffensio Llechi), Tyddyn Isaf, Tal y Bont, Bangor (gyda Kehoe Countryside Services ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Llechi Cymru) |
| **22/07/2026** | Troedio'r Tir - Cylchdaith Cilgwyn efo Rhys Mwyn |
| **15-16/08/26** | Sioe Dafydd Jôs a Proffeser Llusern - perfformiadau hwyliog i deuluoedd. Hwyl yn y Parc, Tanygrisiau |
| **24/08/2026** | Troedio'r Tir y Doctor Dail, Thomas Parry (taith gerdded hanes a natur i oedolion a phlant 10+) dan arweiniad Claire Mace. Tregarth |
| **26/08/2026** | Gweithdy'r Doctor Dail, Thomas Parry (gweithgaredd llesiant i oedolion a phlant 10+) dan arweiniad Claire Mace. Tregarth |
| **31/08/2026** | Sioe Dafydd Jôs y Chwarelwr - sioe hwyliog i deuluoedd. Y Ganolfan, Porthmadog |
| **02/09/2026** | Hanes Meddyginiaethau Llysieuol efo Elin Tomos a Twm Elias. Canolfan Cefnfaes, Bethesda |
| **08/09/2026** | Ein Treftadaeth, gemau a chreu (sesiwn i ddysgwyr Cymraeg). Llyfrgell Tywyn |
| **13/09/2026** | 'A fo Ben Bid Bont', gweithdy ffotograffiaeth dan arweiniad Dylan Arnold. Cwmorthin |
| **19/10/2026** | Arddangosfa a ffilm Falcon Hildred. Casgliad o astudiaethau manwl o dref lechi hanesyddol Blaenau Ffestiniog, i ddathlu gyrfa'r artist adnabyddus. Llyfrgell Blaenau Ffestiniog |
| **22/10/2026** | Dathlu'r Dirwedd Llechi, Cyfarfod Blynyddol y STyB, Plas Tan y Bwlch |
| **26/10/2026** | Blaena' Bendigedig, gweithdy creadigol i deuluoedd gyda'r artist Jŵls Williams yn cymryd ysbrydoliaeth o arddangosfa Falcon Hildred. Llyfrgell Blaenau Ffestiniog |
| **30/10/2026** | Gweithdy creadigol aml gyfrwng i oedolion gyda'r artist Jŵls Williams yn cymryd ysbrydoliaeth o arddangosfa Falcon Hildred. Llyfrgell Blaenau Ffestiniog |

E-bost: **llechi@gwynedd.llyw.cymru**. Gwefan: **www.llechi.cymru**.

Ar gyfer y wybodaeth ddiweddaraf, dilynwch ni ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol (cliciwch yr eiconau isod). Gwiriwch **Eventbrite** am ddigwyddiadau a gweithgareddau.